LC274

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**The National Assembly for Wales**

**ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU** **LEGISLATION COMMITTEE REPORT**

## Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Refferenda) (Deisebau a Chyfarwyddiadau) (Cymru) 2001

### Y cefndir

Mae Deddf Llywodraeth Leol 2000 yn caniatáu i gynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol yng Nghymru wneud trefniadau i'w swyddogaethau gael eu cyflawni gan weithrediaethau, sy'n gorfod cyd-fynd ag un o'r mathau a bennir yn adran 11(2) i (4) o'r Ddeddf neu gan reoliadau o dan adran 11(5).

Mae'r Rheoliadau hyn yn cynnwys darpariaeth fanwl mewn perthynas â chyflwyno deisebau a chynnal refferenda mewn cysylltiad â chynigion ar gyfer mabwysiadu trefniadau gweithrediaeth.

Cafodd Rheoliadau i'r un perwyl ar gyfer Lloegr eu gwneud ar 19 Hydref 2000 a daethant i rym ar 16 Tachwedd 2000 (OS 2000 Rhif 2852). Nid yw'r Cyd-bwyllgor ar Offerynnau Statudol wedi codi unrhyw bwyntiau mewn perthynas â'r rheoliadau hynny (Sesiwn 1999/2000 32ain Adroddiad).

### Rheol Sefydlog 11.5

Gan eu bod wedi cael cyfle i edrych ar ddrafft cynnar o'r rheoliadau, nododd cynghorwyr cyfreithiol y Pwyllgor nifer o ymholiadau sydd bellach wedi'u datrys, weithiau drwy gywiriadau i'r drafft ac weithiau drwy esbonio. Gan hynny, nid oes dim pwyntiau yn cael eu nodi ar hyn o bryd fel materion y mae angen i'r Pwyllgor wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig iddynt.

**Sylwadau Cyffredinol**

**Rheoliad 7(5)**

Ni ddylai'r pedair llinell olaf fod wedi'u hindentio.

Mick Bates AC
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau

5 Mehefin 2001